

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 232 (Cymru) - 6 Mawrth 2019

[Diwygio'r canfas: Arolwg Swyddfa'r Cabinet](#)

Gyda diwygio'r canfas i'w weithredu yn 2020, mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi [arolwg](#) dros e-bost i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar 28 Chwefror. Bwriad yr arolwg yw helpu Swyddfa'r Cabinet i ddeall prosesau presennol gwasanaethau etholiadol, a sut gallai'r rhain newid wrth gyflwyno cam paru data ar gychwyn y canfas. Bydd y wybodaeth a ddarparwch hefyd yn hysbysu sut mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu cynllunio ar gyfer hyfforddiant i gefnogi rhoi diwygio'r canfas ar waith.

Mae fersiwn PDF o'r arolwg gyda'r cwestiynau ar gael [yma](#). Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Gwener 29 Mawrth.

Unwaith bod canlyniadau'r arolwg wedi'u dadansoddi, bydd Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi arolwg arall fydd yn casglu gwybodaeth parodrwydd manwl cyn cychwyn y canfas cyntaf newydd.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau ynghylch yr arolwg, neu os nad yw eich Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi derbyn dolen i'r arolwg, cysylltwch â cg-analysis@cabinetoffice.gov.uk

[Hygyrchedd prosesau etholiadol: arfer da cartrefi gofal](#)

Fel rhan o'u gwaith i wella hygyrchedd prosesau etholiadol, mae Swyddfa'r Cabinet wedi anfon cais am esiamplau o weithgareddau y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud i gefnogi trigolion cartrefi preswyl i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio mewn etholiadau. Gallai hyn gynnwys unrhyw gydweithio yr ydych chi'n ei wneud gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol oedolion yr awdurdod lleol, elusennau, sefydliadau anabledau lleol neu ddarparwyr cartrefi gofal.

Mae hefyd diddordeb gyda nhw yn eich barn chi ar beth yw'r rhwystrau i ddarparu cefnogaeth i drigolion cartrefi gofal a sut y

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

[Diwygio'r canfas: Arolwg Swyddfa'r Cabinet](#)

Gwybodaeth am arolwg a roddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

[Hygyrchedd prosesau etholiadol: arfer da cartrefi gofal](#)

Gwybodaeth am waith a gydlynir gan Swyddfa'r Cabinet i wella hygyrchedd prosesau etholiadol mewn cartrefi gofal, a manylion o sut gallwch helpu.

[Diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd - hysbysebion neu 'bostio' eich postïadau ar Facebook](#)

Gwybodaeth am newidiadau i reolau Facebook, gan gynnwys manylion eu proses 'ad authorisation'.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorfennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'n cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol](#).

[Rhowch wybod i ni](#) am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael eu penodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm

gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Drwy ymateb i'w ymholiad, bydd hyn yn helpu sicrhau bod esiamplau o arfer da wrth ymgysylltu â phobl mewn cartref gofal yn cael ei hyrwyddo a'i ddefnyddio gan awdurdodau lleol eraill. Bydd hefyd yn ên helpu i ddeall yn well beth yw'r rhwystrau a sut y gellir mynd i'r afael â nhw.

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi gosod dyddiad cau ar gyfer ymatebion o 8 Mawrth. Anfonwch eich esiamplau at elections@cabinetoffice.gov.uk

Diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd - hysbysebion neu 'bostio' eich postïadau ar Facebook

Mae Facebook wedi gwneud rhai newidiadau ynghylch rhoi hysbysebion sy'n 'berthnasol i wleidyddiaeth neu faterion o bwysigrwydd cenedlaethol'.

Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys hysbysebion sy'n gysylltiedig ag 'unrhyw etholiad, refferendwm neu bleidlais, gan gynnwys annog pobl i bleidleisio neu ymgyrchoedd gwybodaeth am etholiadau', ac felly mae'n berthnasol i bostiadau efallai y byddwch hi'n 'bostio', megis postïadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau etholiadol.

Dylech felly sicrhau bod unrhyw un sy'n rhedeg hysbysebion neu'n 'bostio' postïadau ar eich rhan yn cwblhau'r broses 'ad authorisation' ar Facebook. Mae'r broses yn syml ac unwaith iddo gael ei wneud, bydd eich hysbysiad yn cael argraffnod digidol 'paid for' yn dangos i'r rhai sy'n gweld yr hysbyseb mai chi dalodd amdano.

Ry'n ni wedi cwblhau'r broses yma a bydd pob hysbyseb Facebook y Comisiwn Etholiadol yn dal yr argraffnod yma: 'Paid for by Electoral Commission UK'.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y newidiadau a'r broses awdurdodau hysbysebion drwy ddilyn y ddolen isod:

- <https://www.facebook.com/business/help/167836590566506>

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2019

yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Ry'n ni'n anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.comisiwnetholiadol.org.uk/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr yma mwyach, gallwch [ddad-danysgrifio](#) unrhyw bryd.